# Cyflwyniad Byr i Ddiwinyddiaeth Drindodaidd

Eglwys Duw Ledled Byd Cymru

# Cyflwyniad Byr i Ddiwinyddiaeth Drindodaidd


Yn syml, ystyr diwinyddiaeth yw "Gwybodaeth yn ymwneud â Duw." Yr hyn sy'n ffurfio'n dealltwriaeth bersonol ni o ddiwinyddiaeth yw'r hyn sy'n wir am Dduw yn ein barn ni.

Mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, mae gan bob un ohonom ni ddiwinyddiaeth. Ac yn sicr, mae gan bob eglwys ac enwad ddiwinyddiaeth. Dyma'r fframwaith sydd wrth wraidd eu hathrawiaethau a'u harferion ac yn eu hysbysu.

Mae "Diwinyddiaeth Drindodaidd" yn ymagwedd benodol at ddiwinyddiaeth sy'n gweld y Drindod, fel yr amlygwyd yn Iesu Grist, yn fwy nag un pwynt yn yr athrawiaeth, ac, yn hytrach, fel yr athrawiaeth ganolog sylfaenol sy'n sail i'r ffordd yr ydyn ni'n darllen y Beibl a sut yr ydyn ni'n deall pob pwynt mewn diwinyddiaeth.

Mae Diwinyddiaeth Drindodaidd yn delio gyda "sut" a "pham" athrawiaethau ac arferion, ond yn fwy pwysig, mae'n dechrau gyda'r "pwy." Mae Diwinyddiaeth Drindodaidd yn holi "Pwy yw'r Duw a amlygwyd yn Iesu Grist, a phwy ydym ni mewn perthynas ag ef?"

Mae'r Beibl yn cyflwyno Duw sydd wedi dewis datgelu ei hun i ni, ac i fod gyda ni, ac ar ein cyfer ni, yn bersonol, yn Iesu Grist. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu




Mae fersiwn Saesneg yr erthygl hon ar gael yn yr Unol Daleithiau fel llyfryn wedi'i argraffu. Os hoffech dderbyn copi, cliciwch yma.

edrych tu allan i'r Iesu i ddeall pwy yw Duw. Yn yr Iesu, rydym yn cwrdd â Duw fel y mae Duw mewn gwirionedd, fel Duw - Y Tad, Y Mab a'r Ysbryd Glân - sydd *er ein mwyn ni.*

Pan fyddwn ni'n cwrdd â'r Iesu, fe welwn ni ei fod yn ein cyflwyno ni i'w Dad nefol. Yn ei eiriau a'i weithredoedd Ef, rydyn ni'n clywed bod y Tad yn ein caru ni'n ddiamod ac rydyn ni'n gweld hyn. Fe anfonodd Ef yr Iesu, nid allan o ddicter neu angen i gosbi rhywun, ond allan o'i gariad difesur a'i ymrwymiad anhyblyg i brynu dynolryw. Pan fyddwn ni'n cwrdd â'r Iesu yn y Beibl, fe welwn ni ei fod hefyd yn ein cyflwyno ni i'w Ysbryd, Ysbryd Glân Duw, sydd hefyd yn gweithio i dynnu ein sylw ni at weinidogaeth Duw – gweinidogaeth sydd am ein cymodi ni.

Felly, nid yw "Diwinyddiaeth Drindodaidd" yn cyfeirio at gred yn athrawiaeth y Drindod yn unig. Mae'n cyfeirio at gredu yn y Duw Triphlyg hwn a chydnabod bod yr athrawiaeth hon, sy'n arwain y ffordd at Dduw gwirioneddol y Beibl, yn gorwedd wrth galon pob athrawiaeth arall, ac yn ffurfio'r sylfeini ar gyfer y ffordd yr ydyn ni'n deall popeth a ddarllenwn yn yr Ysgrythur.

## Crist yn y canol

Yn anad dim, ffocws Diwinyddiaeth Drindodaidd yw Crist. Mae'n dweud wrthym fod Iesu Grist, unig Fab Duw, wedi dod yn un gyda'n cnawd ni er mwyn cymryd ein lle ni a'n hachub ni, a'n cynrychioli ni fel ei frodyr a'i chwiorydd yng ngŵydd y Tad. Mae'n dweud wrthym ein bod ni, yng Nghrist, yn perthyn i'r Tad, ac mai ni yw plant annwyl y Tad.

Mae hyn yn golygu bod bywyd a ffydd y Cristion yn ymwneud yn bennaf â phedwar math o *berthnasoedd* personol. 1) perthnasoedd mewnol cariad sanctaidd wedi eu rhannu gan Y Tad, Y Mab a'r Ysbryd Glân o dragwyddoldeb 2) perthynas y Mab tragwyddol gyda dynoliaeth, yn Iesu Grist yn y cnawd. 3) perthnasoedd dynoliaeth gyda'r Tad wedi eu rhoi'n rasol i ni trwy'r Mab a gan yr Ysbryd, a 4) perthnasoedd dynolryw gyda'i gilydd fel plant y Tad, a brynwyd gan Iesu Grist.

Mae Diwinyddiaeth Drindodaidd yn *Drindodaidd* yn yr ystyr ei bod yn dechrau gyda'r ddealltwriaeth fod yr *un* Duw yn bodoli'n dragywydd yn undeb a chymundeb y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.

Ffocws Diwinyddiaeth Drindodaidd yw Crist, yn y ffaith ei bod yn canolbwyntio ar ganolrwydd a goruchafiaeth Iesu Grist fel y mae'n cael ei ddatgelu yn yr Ysgrythur: Mab Duw yn y cnawd, yn un gyda'r Tad a'r Ysbryd; ac yn un gyda dynolryw.

Fel y nodwyd gan Thomas F. Torrance (diwinydd Trindodaidd pwysig o'r 20fed ganrif), yr Iesu yw *daear* (sylfeini/tarddiad) a *gramadeg* (yr egwyddor sy'n trefnu/rhesymeg) y Duwdod a'r drefn gyfan a grëwyd - gan gynnwys holl ddynoliaeth. Felly, dylid deall pob peth mewn perthynas ag ef.

Mae'r Iesu'n dangos mai ef yw'r allwedd i ddeall yr Ysgrythur. Fe ddywedodd wrth grŵp o arweinwyr crefyddol Iddewig yn Ioan 5:39-40: "Yr ydych yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain; eto ni fynnwch ddod ataf fi i gael bywyd." Rydym yn ceisio darllen a dehongli'r Beibl trwy chwyddwydr gwir ystyr yr Iesu. Felly, ef yw sylfaen a rhesymeg ein diwinyddiaeth - gan mai ef yn unig yw hunan-ddatguddiad *terfynol* a *chyflawn Duw*.

## Hanes cynnar

Diwinyddiaeth Drindodaidd oedd sylfaen y ddysgeidiaeth Gristnogol. Adlewyrchir hyn yng Nghredoau'r Cristnogion cynnar. Roedd yr athrawon a'r diwinyddion Trindodaidd cynnar blaenllaw yn cynnwys Irenaeus, Athanasius, a Gregory o Nazianzus.

Roedd **Irenaeus** (bu farw 202 O.C.) yn un o ddisgyblion Polycarp (a fu'n astudio gyda'r apostol Ioan). Roedd Irenaeus yn ceisio dangos mai'r Iesu oedd ffocws yr efengyl iachawdwriaeth, a addysgwyd gan yr apostolion ac a drosglwyddwyd ganddynt. Fe welodd fod y Beibl yn cyflwyno'r Ymgnawdoliad fel man cychwyn newydd i ddynoliaeth (gweler Effesiaid 1:9-10, 20-23). Trwy'r Ymgnawdoliad, ganwyd y ddynoliaeth gyfan eto yn yr Iesu. Yn yr Iesu, mae gan ddynoliaeth ddechrau newydd a hunaniaeth newydd.

Roedd y sail Feiblaidd ar gyfer ffordd Irenaeus o feddwl yn cynnwys datganiadau Paul yn Rhufeiniaid 5, ble mae'r Iesu'n cael ei gyflwyno i ni fel "ail" Adda (neu Adda “terfynol") dynoliaeth. "Yn yr Iesu," ysgrifennodd Irenaeus, "Ailadroddodd Duw ynddo'i Hun ffurfiad hynafol dyn [Adda], er mwyn Iddo ladd pechod, tynnu'r pŵer o grafangau marwolaeth, a bywiocau dynolryw..." (*Against Heresies*, III.18.7).

Deallodd Irenaeus fod yr Iesu wedi cymryd dynolryw iddo'i hun ac wedi adnewyddu dynoliaeth trwy ei fywyd, marwolaeth, atgyfodiad a Dyrchafael *dirprwyol* (i'n cynrychioli ni ac i gymryd ein lle).

Fe addysgai Irenaeus nad gwaith a wnaed “gan” yr Iesu yn unig oedd adnewyddu neu ail-greu dynoliaeth yn yr Iesu trwy'r Ymgnawdoliad. Yn hytrach, mae ein hiachawdwriaeth yn golygu llawer mwy na maddau ein pechodau. Mae'n golygu ein hail-greu yn gyfan gwbl “yn” yr Iesu, a “thrwyddo”.

Fe fu **Athanasius** (bu farw 373 O.C.) yn amddiffyn yr efengyl yn erbyn athrawon ffug (gan gynnwys Arius) a oedd yn gwadu duwdod tragwyddol y Mab. O ganlyniad i'r amddiffyniad hwn, ffurfiwyd athrawiaeth y Drindod, a gadarnhawyd yng

Nghyngor Nicea yn 325 O.C.. Yn ei draethawd *On the Incarnation,* adran 20, fe ysgrifennodd Athanasius y canlynol:

> Thus, taking a body like our own, because all our bodies were liable to the corruption of death, He surrendered His body to death in the place of all, and offered it to the Father. This He did out of sheer love for us, so that in His death all might die…. This He did that He might turn again to incorruption men who had turned back to corruption, and make them alive through death by the appropriation of His body and by the grace of His resurrection…
>
> What then was God to do? What else could He possibly do, being God, but renew His Image in mankind, so that through it men might once more come to know Him? And how could this be done, save by the coming of the very Image Himself, our Savior Jesus Christ?… The Word of God came in His own Person, because it was He alone, the Image of the Father, Who could recreate man made after the Image. Thus it happened that two opposite marvels took place at once: the death of all was consummated in the Lord's body; yet because the Word was in it, death and corruption were in the same act utterly abolished. Death there had to be, and death for all, so that the due of all might be paid. Wherefore the Word…being Himself incapable of death, assumed a mortal body, that He might offer it as his own in the place of all, and suffering for the sake of all through His union with it, "might bring to nought him that had the power over death, that is, the devil, and might deliver them who all their lifetime were enslaved by the fear of death" (Hebrews 2:14-15). By his death salvation has come to all men, and all creation has been redeemed.

Pwysleisiodd Athanasius ac Irenaeus natur ddirprwyol dynoliaeth yr Iesu yn ei Ymgnawdoliad. Dim ond trwy enedigaeth, bywyd, marwolaeth aberthol ac atgyfodiad Mab Ymgnawdoledig Duw y gallai Duw achub dynoliaeth. Dyma hanfod yr efengyl a ddeallwyd gan yr eglwys gynnar ac a ddatgelwyd yn yr Ysgrythur.

Ysgrifennodd **Gregory o Nazianzus** (bu farw 389 O.C.) am y ffordd y prynodd yr Iesu ein dynoliaeth doredig trwy ei Ymgnawdoliad:

> If anyone has put his trust in Him [Jesus] as a Man without a human mind, such a person is bereft of mind … for that which He has not assumed He has not healed; but that which is united to His Godhead is also saved. If only half Adam fell, then that which Christ assumes and saves may be half also; but if the whole of his nature fell, it must be united to the whole nature of Him that was begotten, and so be saved as a whole… (*Epistle* 101).

# Diwinyddion Trindodaidd Cyfoes

Yn yr 20fed ganrif, roedd Diwinyddiaeth Drindodaidd yn flaengar yn y Gorllewin, i raddau helaeth trwy waith Karl Barth a'i fyfyrwyr, gan gynnwys tri brawd: Thomas F. Torrance, James B. Torrance a David Torrance, a'u myfyrwyr.

Yn yr 21ain ganrif, mae yna gannoedd o ddiwinyddion Trindodaidd hwnt ac yma mewn enwadau niferus, gan gynnwys Ray Anderson, Elmer Colyer, Michael Jinkins, C. Baxter Kruger, Alan Torrance, Trevor Hart a'r diweddar Colin Gunton.

# Pwy wyt ti, Arglwydd?

Mae Diwinyddiaeth Drindodaidd yn ateb y cwestiwn holl bwysig: *"Pwy yw Iesu Grist?"* Mae'r ddiwinyddiaeth hon, sydd â'i gwreiddiau'n ddwfn yn y Beibl, yn ychwanegu llawnder dealltwriaeth at yr efengyl - ac yn rhoi geirfa Crist-ganolog i ni i rannu'r efengyl gydag eraill yn ein byd cyfoes.

"Pwy wyt ti, Arglwydd?" yw'r prif gwestiwn diwinyddol. Dyma gwestiwn ingol Paul ar y Ffordd i Ddamascus, ble cafodd ei daro gan yr Iesu atgyfodedig (Actau 9:5). Fe dreuliodd Paul weddill ei fywyd yn ateb y cwestiwn hwn ac yna'n rhannu'r ateb gyda phawb a wrandawai. Yr ateb, a ddatgelir i ni yn yr Ysgrythur, yw calon yr efengyl a ffocws Diwinyddiaeth Drindodaidd:

Yr Iesu yw Duw yn llwyr - Ail Berson y Drindod, Mab dwyfol Duw, mewn undod tragwyddol gyda'r Tad a'r Ysbryd. Mae'r Ysgrythur yn dweud wrthym fod popeth yn y nefoedd a'r ddaear wedi eu creu trwy Fab Duw, gan gynnwys pob bod dynol (Colosiaid 1:16), ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll, gan gynnwys pob bod dynol (adnod 17). Felly, pan ddywedwn ni "Iesu Grist" rydyn ni hefyd yn dweud "Duw" a "Creawdwr."

Mae'r Iesu'n llwyr ddynol - daeth Mab Duw (y Gair) yn ddynol ("cnawd," Ioan 1:14), tra'n dal i fod yn hollol ddwyfol. Gelwir hyn yn "Ymgnawdoliad." Yn ôl yr Ysgrythur, ni ddaeth yr Ymgnawdoliad hwn i ben, ond yn hytrach mae'n parhau - yr Iesu nawr, ac yn dragywydd, yw Duw, yn llwyr, ac mae'n llwyr ddynol hefyd. Ef a atgyfodwyd ac a esgynnodd mewn corff. Ef a fydd yn dychwelyd mewn corff, fel y gadawodd. Pan yr ydyn ni'n dweud "Iesu Grist" rydyn ni hefyd yn dweud "dynoliaeth."

Fel yr Un sydd yn unigryw Dduw (Creawdwr a Chynhaliwr pawb a phopeth) a hefyd yn llwyr ddynol, yr Iesu, ynddo'i hun, yw undod unigryw Duw a dynoliaeth. Ym mywyd, marwolaeth, atgyfodiad a Dyrchafael yr Iesu, a thrwyddynt, mae pob person wedi eu cynnwys ym mywyd a chariad Duw. Fel y pwysleisiodd yr apostol Paul, mae'r Iesu, ac "yntau yn ddyn" (1 Timotheus 2:5) yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion - yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Ef yw'r dirprwy dynol sydd wedi dod i fyw ac i farw ac i atgyfodi yn ein lle, ac ar ein rhan, i'n cymodi ni gyda Duw - y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.

Yn Rhufeiniaid 5, mae Paul yn annerch credinwyr, ond mae'r hyn y mae'n ei ddweud yn berthnasol i holl ddynolryw - yn gredinwyr ac yn anghredinwyr. Yn ôl Paul, trwy'r Iesu, mae *pawb* …

- wedi eu cyfiawnhau drwy fydd, ac felly yn meddu ar heddwch â Duw (a. 1)
- wedi eu cymodi trwy farwolaeth yr Iesu (a. 10)
- wedi eu hachub trwy ei fywyd (a. 10)

Fe ddigwyddodd y cyfiawnhad, y cymodi a'r achubiaeth hwn:

- a ninnau’n "ddiymadferth" (a. 6)
- a ninnau’n “dal yn bechaduriaid” (a. 8)
- pan oeddem yn “elynion” (a. 10)

Fe ddigwyddodd hyn heb ein cyfranogiad ni, heb sôn am ein gwaith da ni. Fe wnaeth yr Iesu'r pethau hyn ar ein cyfer ni, ac i ni, ac fe’u gwnaeth o fewn ei hun. Fel y dywedodd Irenaeus, wrth adleisio Effesiaid 1:10, fe ddigwyddodd yn yr Iesu, trwy ei Ymgnawdoliad, trwy “ailadroddiad” mawr."

Mae mantais yr hyn a wnaeth yr Iesu gymaint o flynyddoedd yn ôl, yn ymestyn i’r presennol ac ymlaen i’r dyfodol oherwydd, yng ngeiriau Paul, "faint mwy…fyddwn ni’n cael ein hachub trwy ei fywyd " (a. 10) - gan ddangos nad *trafodyn* yw’r iachawdwriaeth, ond *perthynas* barhaus Duw gyda holl ddynolryw - perthynas sydd wedi cael ei meithrin o fewn person Iesu Grist - yr hwn sydd wedi dod â Duw a dynoliaeth at ei gilydd, trwyddo’i hun, mewn hedd.

# Iesu, yr ail Adda

Gan barhau yn Rhufeiniaid 5, mae Paul yn cymharu’r Adda cyntaf â’r Iesu, gan gyfeirio at yr Iesu fel yr “ail” Adda neu’r Adda “terfynol”. Sylwer prif bwyntiau Paul:

- "Daeth pechod i’r byd trwy un dyn [Adda]…[a] yn gymaint ag i bawb bechu …" (a. 12)
- "Ond gymaint mwy sydd ar yr ochr arall: helaethrwydd gras Duw a’i rodd raslon o’r un dyn, Iesu Grist [yr ail Adda], i’r rhelyw o ddynion?" (a. 15)
- A, "fel y daeth collfarn, trwy un weithdrefn o drosedd [gan yr Adda cyntaf] ar y ddynolryw i gyd, felly hefyd y daeth cyfiawnhad [sef yr Iesu, yr ail Adda, neu’r Adda terfynol] a bywyd, trwy un weithdrefn o gyfiawnder, i’r *ddynolryw i gyd*" (a. 18).

# *Yn wir, ystyr "i gyd"* yw *"i gyd"*

Mae Paul yn siarad am yr hyn a wnaeth yr Iesu i ddynolryw i gyd. Mae amrediad ei fywyd dynol dirprwyol yn ymestyn at bawb sydd wedi byw. Ond nid yw pob Cristion yn gweld ystyr y geiriau “i gyd” yn y ffordd hon:

Yn ôl Calfiniaeth, er enghraifft, nid yw iachawdwriaeth yn rhywbeth i bawb, mewn gwirionedd, oherwydd mae’r cymod wedi’i gyfyngu at y dewis rai, sydd wedi eu rhagarfaethu i gael eu hachub; ni fu’r Iesu farw i’r rheiny nad ydynt wedi eu dewis. Ond, mae’r Beibl yn datgan i’r Iesu farw i *bawb* - a bod ei farwolaeth yn berthnasol i bawb *nawr*. Mae’r dyfyniadau perthnasol yn cynnwys:

- Ioan 12:32: "A minnau [yr Iesu], os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun."
- 2 Corinthiaid 5:14: "Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, unwaith y’n hargyhoeddir o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw."
- Colosiaid 1:19-20: "Oherwydd gwelodd Duw yn dda i’w holl gyflawnder breswylio ynddo ef, a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei farw

aberthol ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a’r pethau sydd yn y nefoedd.

- 1 Timotheus 2:3-6: "Peth da yw hyn, a chymeradwy gan Dduw, ein Gwaredwr, sy’n dymuno gweld pob dyn yn cael ei achub ac yn dod i ganfod y gwirionedd. Oherwydd un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, sef Crist Iesu, a oedd yntau yn ddyn. Fe’i rhoes ei hun yn bridwerth dros bawb."
- 1 Timotheus 4:9-10: "Dyna air i’w gredu, sy’n teilyngu derbyniad llwyr …oherwydd rhoesom ein gobaith yn y Duw byw, sy’n Waredwr i bob dyn, ond i’r credinwyr yn fwy na neb."
- Hebreaid 2:9: "eithr yr ydym yn gweld Iesu, yr un a wnaed am ryw ychydig yn is na’r angylion…oherwydd iddo ddioddef marwolaeth, er mwyn iddo, trwy ras Duw, brofi marwolaeth dros bob dyn."
- 1 Ioan 2:2: "[Iesu yw] moddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau, ac nid puredigaeth ein pechodau ni yn unig, ond hefyd bechodau’r holl fyd."
- Gweler hefyd Ioan 1:29; 3:17; Rhufeiniaid 8:32; 2 Corinthiaid 5:18-19; Titus 2:11; ac 1 Ioan 4:14.

Er bod yna fwy o dystiolaeth eto, mae’r dystiolaeth hon o’r Ysgrythur yn ddigon i gasglu bod yr Iesu wedi marw dros ddynoliaeth “i gyd”.

# Mae iachawdwriaeth yn golygu *ail-greu*, nid dim ond trafodyn

Mewn cyferbyniad â Chalfiniaeth, mae Arminiaeth yn cytuno bod “i gyd” yn cyfeirio at holl ddynolryw; fodd bynnag, dim ond y *potensial* o iachawdwriaeth sydd ganddynt, ac nid iachawdwriaeth wirioneddol, oherwydd ni roddir iachawdwriaeth gwirioneddol hyd nes bod gan berson ffydd.

Ond, mae’r Beibl yn dweud wrthym nad yw iachawdwriaeth yn dod trwy *drafodyn,* ble mae Dyw yn rhoi iachawdwriaeth i ni yn gyfnewid am ein hedifeirwch a’n ffydd.

Yn hytrach na thrafodyn, mae’r Ysgrythur yn cyflwyno iachawdwriaeth fel rhodd rad ac am ddim, nad ydym wedi ei hennill - rhodd sy’n golygu *ail-greu.* Yn yr Iesu, sy’n llwyr Dduw ac yn llwyr ddynol, cynrychiolydd holl ddynoliaeth, sydd wedi cymryd lle holl ddynolryw, mae pob person yn greadigaeth newydd. Er bod angen ffydd er mwyn profi hyn, mae pob person wedi ei gyfiawnhau, ei gymodi a’i achub, am eu bod oll wedi eu cynnwys yn yr Iesu - wedi eu cynnwys yn ei Ymgnawdoliad, ei fywyd, ei farwolaeth, ei atgyfodiad a’i Ddyrchafael.

Fe wnaeth yr Iesu hyn oll ar ein cyfer ni, ac i ni, trwy ei wneud gyda ni ac ynom ni—fel un ohonom ni. Iesu yw’r Un ar gyfer y niferoedd, y niferoedd yn yr Un. Felly, deallwn o’r Ysgrythur …

- Pan fu farw’r Iesu, fe fu farw’r ddynoliaeth gyfan gydag ef.
- Pan atgyfododd yr Iesu, fe atgyfododd y ddynoliaeth gyfan at fywyd newydd gydag ef.
- Pan esgynnodd yr Iesu, esgynnodd yr holl ddynoliaeth ac eistedd gydag ef, wrth ymyl ei Dad.

Dewch i ni adolygu’r dyfyniadau perthnasol:

- 2 Corinthiaid 5:14-16: "Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, unwaith y’n hargyhoeddir o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw. A bu ef farw dros bawb er mwyn i’r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach, ond i’r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd."

  Fel y gwelwyd yn gynharach yn Rhufeiniaid 5:18, canlyniad cyfiawnder yr Iesu yw "cyfiawnhad a bywyd … i’r *ddynolryw i gyd.*" Dywedir wrthym am dderbyn aberth Crist, ond nid dyma sy’n gwneud i’r aberth fod yn effeithiol; roedd eisoes yn effeithiol.

- Colosiaid 1:15-17: "Hwn [yr Iesu] yw delw’r Duw anweledig, cyntaf-anedig yr holl greadigaeth; oherwydd ynddo ef y crëwyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau tywysogaethau ac awdurdodau. Trwyddo ef, ac er ei fwyn ef, y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll."

  Oherwydd yr Iesu yw Creawdwr a Chynhaliwr y cosmos cyfan (gan gynnwys holl ddynoliaeth), pan fu farw, aeth y greadigaeth gyfan (gan gynnwys pob person) "i lawr" gydag ef - "i bawb farw " (2 Corinthiaid 5:14). A phan atgyfododd ef, cyfodwyd pob un ohonom; a phan esgynnodd ef, esgynnodd bob un ohonom. Mae’r Iesu yn cynnwys pawb yn ei Ymgnawdoliad, ei fywyd, ei farwolaeth, ei gladdedigaeth, ei atgyfodiad a’i Ddyrchafael.

- Rhufeiniaid 6:10: "Yn gymaint ag iddo [yr Iesu] farw, i bechod y bu farw, un waith am byth." Mae marwolaeth yr Iesu eisoes yn effeithiol i bawb; bu farw i farwolaeth, unwaith i bawb.

- Effesiaid 2:4-5: "Ond gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad tuag atom mor fawr, fe’n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ; trwy ras yr ydych wedi eich achub."

- 1 Pedr 1:18-20: "Gwyddoch nad â phethau llygradwy, arian neu aur, y prynwyd ichwi ryddid oddi wrth yr ymarweddiad ofer a etifeddwyd gennych, ond â gwaed gwerthfawr Un [yr Iesu]…Yr oedd Duw wedi rhagwybod amdano cyn seilio’r byd, ac amlygwyd ef yn niwedd yr amserau er eich mwyn chwi."

Mae’r efengyl yn ymwneud â pherthynas, perthynas gyda Duw, wedi’i hiachau a’i gwireddu gan weithredoedd Duw ei hun yng Nghrist, ar ein rhan. Nid yw’n ymwneud â chyfres o hawliadau, nac ychwaith â’n gallu i dderbyn cyfres o ffeithiau crefyddol neu Feiblaidd yn ddeallus. Fe gymerodd Iesu Grist ein lle ni gerbron sedd barnedigaeth Duw; fe’n tynnodd ni i mewn iddo ac fe’n gwnaeth ni, gydag ef ac ynddo, trwy’r Ysbryd, yn blant annwyl i Dduw ei hun.

Daeth yr hwn, y mae’r holl gosmos (gan gynnwys dynolryw) yn byw ac yn symud ac yn bod trwyddo (Actau 17:28), yn llwyr ddynol tra’n parhau i fod yn llwyr ddwyfol (Ioan 1:14).

Mae sawl diwinyddiaeth yn cyflwyno golwg uwchdoredig ar yr Ymgnawdoliad - gan ei weld fel mesur tymor byr gan yr Iesu i dalu’r ddirwy dros bechod dyn. Ond mae’r Ysgrythur yn cyflwyno’r Ymgnawdoliad fel rhywbeth parhaus.

Nid yw gwyrth yr Ymgnawdoliad yn rhywbeth a ddigwyddodd “un tro," yn y gorffennol. Mae’n newid y ffordd y mae’r cosmos cyfan wedi’i “wifrio” - mae’n greadigaeth newydd (2 Corinthiaid 5:17). Fe newidiodd yr Ymgnawdoliad bopeth, am byth - gan ymestyn yn ôl at holl hanes dynolryw, ac estyn ymlaen i amgylchynu holl amser wrth iddo ddatblygu.

Mae Paul yn crybwyll hyn yn Rhufeiniaid 7:4, ble mae’n dweud, hyd yn oed tra’n bod ni’n fyw, ein bod ni eisoes yn farw i’r gyfraith trwy gorff Crist. Er ei fod yn ddigwyddiad hanesyddol, mae marwolaeth yr Iesu mewn cnawd dynol, drosom ni, yn wirionedd cyfredol, sy’n berthnasol i holl ddynolryw (gorffennol, presennol a dyfodol). Y ffaith gosmig hon sydd wrth wraidd holl hanes. Atgyfnerthir y ddealltwriaeth hon yng Ngholosiaid 3:3: "Oherwydd buoch farw," medd Paul wrth y Colosiaid a oedd yn hanesyddol *fyw,* "ac y mae eich bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw." Hyd yn oed cyn i ni farw’n llythrennol, felly, rydyn ni eisoes yn farw yn yr Iesu, ac yn fyw yn atgyfodiad yr Iesu.

Efallai fod hyn wedi ei nodi fwyaf clir yn Effesiaid 2:5-6, ble mae Paul yn taeru, gan ein bod ni eisoes yn farw yn nirgelwch marwolaeth amnewidiedig yr Iesu, fod pob un ohonom hefyd (nawr) wedi ein gwneud “yn fyw gyda Christ…ac fe’n cyfododd gydag ef a’n gosod i eistedd gydag ef yn y nefoedd". Mewn geiriau eraill, mae Duw, trwy’r Iesu, yn croestorri hanes ar un adeg mewn amser, ond hefyd yn *dragwyddol gyfoesol â phob eiliad mewn amser,* yn bresennol, gyda holl ddynoliaeth wedi ei chynnwys ynddo.

## *Perichoresis*

Rhan o gymun tragwyddol cariad, y mae’r Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân yn ei rannu fel y Drindod, yw dirgelwch rhyng-berthnasoedd a chyd-dreiddiad y Personau dwyfol- ymbreswyliad cilyddol heb golli hunaniaeth bersonol. Yng ngeiriau’r Iesu, "…y Tad ynof fi, a minnau yn y Tad " (Ioan 10:38). Roedd diwinyddion Cristnogol cynnar, Groeg eu hiaith, yn defnyddio’r gair *perichoresis* i ddisgrifio’r berthynas hon. Gwreiddiau’r gair yw *o amgylch* a *cynnwys.*

Mae’r diwinydd Michael Jinkins yn dweud sut mae’r bywyd perichoretaidd hwn yn cynnwys perthynas Duw gyda’r ddynoliaeth:

> The idea communicated by the word *perichoresis* is crucial but difficult to handle. We can best deal with it by focusing our attention on the incarnation. When the Word became flesh, God poured out his very life into creation while also and simultaneously taking into his own triune being our humanity in the supreme act of self-abnegation for the sake of others. In this free act of self-surrender, God allows us to look into the very heart of his eternal being, into the Father’s eternal outpouring into the Son, God’s giving away of his own self without reservation. This act of self-giving is itself not merely some "it" but is God the Holy Spirit, flowing eternally from the Father to the Son and

> through the Son to humanity. As the Son in joyful surrender returns this love to the Father, the Spirit eternally returns to the Father, the Origin of all being (*Invitation to Theology,* p. 91).

# Mae Pawb yng Nghrist

Yn Iesu Grist, a thrwyddo, mae Duw yn estyn allan i gynnwys dynolryw yn ei fywyd ac yn ei gariad. Yn yr Iesu, a thrwyddo, mae'r holl ddynoliaeth bellach wedi ei chynnwys yng nghyfeillach dragwyddol y Drindod, er ein bod ond yn gallu profi'r gyfeillach honno trwy ffydd.

Fe ddywedodd yr Iesu wrth ei ddilynwyr y noson cyn iddo farw ar y pren: "Yn y dydd hwnnw byddwch chwi'n gwybod fy mod i yn fy Nhad, a'ch bod chwi ynof fi, a minnau ynoch chwithau" (Ioan 14:20).

Nid yw'n dweud y byddant ryw ddiwrnod *yn cael* eu cynnwys - mae'n dweud eu bod nhw *wedi* eu cynnwys, ac un diwrnod y byddant yn sylweddoli hyn. Mae iachawdwriaeth yn golygu bod "yn" yr Iesu, nid rhywbeth sy'n cael ei wneud "gan" yr Iesu, yr ydyn ni'n ei dderbyn yn ddiweddarach ac yn ei wneud yn "iawn" neu'n "wir" i ni. Mae iachawdwriaeth yn ymwneud â pherthynas, a dyna paham y mae Paul yn dweud bod pethau "yng Nghrist" mor aml yn ei lythyron (dros 130 o weithiau).

Ni sydd biau iachawdwriaeth, ond dim ond mewn undeb gyda'r Iesu, a thrwy hynny yr ydym yn rhannu ym mywyd dynol perffaith yr Iesu ac yn ei berthynas â'r Tad a'r Ysbryd. Yn un gyda'r Iesu, rydym eisoes wedi ein cynnwys yng nghariad a bywyd triunol Duw. Ond, ni allwn brofi llawenydd y bywyd hwnnw heb ffydd.

Fel y gwelwyd yn yr Ysgrythur, trwy undeb gyda'r Iesu, mae'r holl ddynoliaeth …

- wedi ei chymodi at y Tad.
- yn ddiogel yn y ffaith fod y Tad yn ein hoffi, yn ein caru ac yn ein heisiau.
- wedi ei derbyn "yn yr Anwylyd" (Effesiaid 1:6).
- wedi ein maddau (dim hanes o bechod na chondemniad).

Nid yw'r efengyl yn datgan y *posibilrwydd* neu'r *potensial* fod y pethau hyn yn wir i ni, ond yn hytrach gwirionedd y cawn ein hannog i'w dderbyn.

# Ffydd Crist

Yn fersiwn y Brenin Iago, yn Saesneg, dywedir: "I am crucified with Christ: nevertheless I live; yet not I, but Christ liveth in me: and the life which I now live in the flesh I live *by the faith of the Son of God,* who loved me, and gave himself for me."

Mae'r geiriau hyn yn siarad yn briodol amdanom ni'n rhannu *yn* ffydd Crist (yn hytrach na "ffydd *yng* Nghrist "). Ffydd Crist sydd yn ein hachub ni. Mae David Torrance yn ysgrifennu'r canlynol (fi sydd wedi ychwanegu'r pwyslais):

> *We are saved by Christ’s faith and obedience to the Father, not ours.* My brother Tom [Torrance] often quoted Gal. 2:20…. Such is the wording of the KJV, which I believe is a correct translation…. Other translators, like those of the New International Version, apparently because they found it so difficult to believe we can live by Christ’s faith rather than our faith, have altered the text to make it read, "I live by faith *in* the Son of God"! – something altogether different! That translation takes away from the vicarious nature of Christ’s life of faith. It is by his faith [not ours] that we are saved and live! Our faith is a thankful response to his faith. When we look back along our lives and ponder how disobedient we at times have been and continue to be, it is marvellously comforting to know that Christ gives us his life of obedience to the Father and that it is Christ’s obedience which counts. We are saved by his obedience, not ours. (*An Introduction to Torrance Theology,* pp. 7-8)

Mae Thomas Torrance yn ysgrifennu:

> Jesus steps into the actual situation where we are summoned to have faith in God, to believe and trust in him, and he acts in our place and in our stead from within the depths of our unfaithfulness and provides us freely with a faithfulness in which we may share…. That is to say, if we think of belief, trust or faith as forms of human activity before God, then we must think of Jesus Christ as believing, trusting, or having faith in God the Father on our behalf and in our place….
>
> Through his incarnation and atoning union with us our faith is implicated in his faith, and through that implication, far from being depersonalized or dehumanized, it is made to issue freely and spontaneously out of our own human life before God. Regarded merely in itself, however as Calvin used to say, faith is an empty vessel, for in faith it is upon the faithfulness of Christ that we rest and even the way in which we rest on his is sustained and undergirded by his unfailing faithfulness (*The Mediation of Christ,* pp. 82-83)

# Ond beth am ryddid dynol?

Os mai bywyd, ffydd ac ufudd-dod Iesu Grist sy’n ein hachub ni ac yn ein cynnwys ni yn yr iachawdwriaeth honno, beth yw ein rôl ni? Beth sy’n digwydd i’r syniad o ryddid dynol? Ystyriwch y pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl ddynoliaeth, trwy benderfyniad a gweithredoedd goruchaf Duw, wedi ei chynnwys yng Nghrist; rhagarfaethwyd hyn ac mae wedi cael ei gyflawni yn yr Iesu, ar wahân i unrhyw weithredoedd, cred, gweithiau ac yn y blaen gennym ni ein hunain.
- Anogir pob person nawr, trwy anogaeth yr Ysbryd, i gredu gair Duw ac i dderbyn ei gariad yn bersonol.
- Nid yw Duw yn gorfodi’r penderfyniad/derbyniad personol hwn ar unrhyw un. Rhaid i gariad gael ei rhoi a’i dderbyn yn rhydd; ni ellir ei orfodi, neu nid cariad mohono.

- Ac felly mae penderfyniadau dynol, y gallu i arfer rhyddid dynol, yn holl bwysig, ond dim ond yng nghyd-destun derbyn rhodd Duw, sydd eisoes wedi cael ei rhoi yn rhydd.

# Dim cyffredinoliaeth

Pan fyddwn ni'n siarad am benderfyniadau dynol, rydyn ni'n siarad am ymateb personol. A rhaid i ni ofalu nad ydym yn drysu rhwng yr hyn sy'n wrthrychol wir yn yr Iesu ar gyfer dynoliaeth gyfan, a derbyniad personol a goddrychol unigolion o'r gwir gwrthrychol hwn.

- Nid ydym ni'n "penderfynu ar ran Crist" yn yr ystyr fod ein penderfyniad personol ni yn creu ein hiachawdwriaeth neu'n achosi ein hiachawdwriaeth.
- Yn hytrach, trwy benderfyniad personol, rydym yn derbyn yr hyn sydd *eisoes* yn eiddo i ni yng Nghrist, gan roi ein hymddiriedaeth yn yr un sydd eisoes wedi ymddiried drosom ni fel ein cynrychiolydd.
- Mae'r Ysbryd Glân yn ein harwain ni i ymddiried yn yr Iesu, nid yn ein ffydd ni.
- Mae'r undeb gwrthrychol hwn, sydd gennym gyda Christ, wedi iddo gymryd ein dynoliaeth iddo'i hun, yn y cnawd, yn cael ei weithredu'n bersonol ac yn oddrychol mewn ffydd, trwy'r Ysbryd Glân sy'n preswylio.
- Pan fyddwn ni'n credu'n bersonol yn yr efengyl, ac felly'n derbyn yr hyn sydd eisoes yn eiddo i ni trwy ras, rydym yn dechrau *mwynhau* cariad Duw tuag atom ni, ac yn dechrau byw'r greadigaeth newydd y gwnaeth Dduw i ni fod, yng Nghrist, cyn i ni hyd yn oed ddod i gredu.

Mae yna wirionedd *cyffredinol,* neu wrthrychol, ynghylch yr holl ddynoliaeth yn yr Iesu, a hefyd y profiad *personol* neu *oddrychol* o'r gwirionedd hwn.

Yn wrthrychol, mae *pob person,* yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, eisoes wedi eu cyfiawnhau; maent oll wedi eu sancteiddio; maent oll wedi eu cymodi *yn yr Iesu,* a thrwy'r hyn a wnaeth fel eu cynrychiolydd ac fel yr un a gymerodd eu lle. Yn yr Iesu, yn wrthrychol, mae'r hen 'hunan' *eisoes* wedi myned heibio; ynddo ef, yn wrthrychol, ni, *eisoes*, yw'r ddynoliaeth newydd, wedi ei chynrychioli fel y cyfryw ganddo ef, gerbron Duw a gyda Duw.

Fodd bynnag, er fod pawb eisoes wedi eu prynu'n *wrthrychol* gan Iesu Grist, nid yw pob un eto wedi dihuno'n bersonol ac yn *oddrychol* i'r hyn y mae Duw wedi ei wneud iddynt, nac wedi'i dderbyn. Nid ydynt eto yn gwybod pwy ydynt mewn gwirionedd, mewn undeb gyda'r Iesu.

Rhaid i'r hyn sy'n wrthrychol wir i bawb gael ei dderbyn a'i brofi'n bersonol ac yn oddrychol trwy edifarhau a ffydd. Nid yw edifeirwch na ffydd yn *creu* nac yn *achosi* iachawdwriaeth person, ond ni all berson brofi na mwynhau iachawdwriaeth hebddynt. Mae edifeirwch a ffydd, ynddynt eu hunain, yn rhoddion gan Dduw.

Yn yr Ysgrythur, mae yna rai adnodau sy'n siarad yn gyffredinol/yn wrthrychol, tra bod eraill yn siarad yn bersonol/oddrychol. Mae'r ddau'n wir - ond mae'r *personol* yn wir am fod y *cyffredinol* yn realiti sydd eisoes yn bod.

Mae’r ddau gategori yma yn ymddangos trwy gydol yr Ysgrythur - y ddau weithiau’n ymddangos o fewn un dyfyniad, fel y gwelir yn 2 Corinthiaid 5:18-21. Mae Paul yn dechrau yn adnodau 18-19 gyda’r geiriau gwrthrychol/cyffredinol: "Ond gwaith Duw yw’r cyfan - Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi’r byd ag ef ei hun, heb gyfrif troseddau dynion yn eu herbyn, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod."

## Newyddion da i bob un

Dyma wirionedd *cyffredinol* sy’n berthnasol mewn ffordd wrthrychol i bawb—mae pawb eisoes wedi eu cymodi â Duw trwy’r hyn a wnaeth yr Iesu mewn undeb gyda’r holl ddynoliaeth.

Rhaid i unrhyw ddiwinyddiaeth sy’n ffyddlon i’r Ysgrythur ac i’r Iesu ei hun adrodd ynghylch y gwirionedd hwn. Yn anffodus, mae llawer i ddiwinyddiaeth yn dueddol o anwybyddu’r agwedd hon, gan ganolbwyntio’n bennaf, neu’n unig, ar y personol/goddrychol. Nid yw hyn yn gwneud tegwch â’r efengyl, oherwydd dyma agwedd gyffredinol/wrthrychol yr Iesu - pwy ydyw a’r hyn a wnaeth, sy’n sylfaen i’r personol/goddrychol.

Yn ôl i 2 Gorinthiaid 5, wedi sefydlu’r cyffredinol yn adnodau 18-21, mae Paul yn mynd ymlaen yn adnodau 20-21 i roi sylw i’r goddrychol/personol: "Felly cenhadon yn cynrychioli Crist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Yr ydym yn deisyf arnoch, er mwyn Crist, cymoder chwi â Duw. Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni."

Sut mae modd i bopeth fod wedi’i gymodi yn barod, ac eto mae yna wahoddiad i gymodi - gan awgrymu cymodi sydd heb ddigwydd eto? Yr ateb yw bod *y ddau* yn wir - dyma ddau agwedd ar un gwirionedd. Mae *pawb* eisoes wedi eu cymodi yng Nghrist - dyma’r gwir cyffredinol a gwrthrychol - ond nid yw pawb yn cofleidio nac yn profi eu cymod gyda Duw.

Mae cymodi, ac eto peidio â gwybod amdano na’i brofi, yn golygu parhau i fyw fel pe na bai person wedi ei gymodi. Nid yw cael eich llygaid wedi eu hagor i’r cymodi hwn gan yr Ysbryd, dewis ei gofleidio, ac yna ei brofi, yn achosi i’r cymod ddigwydd, ond mae’n ei *wireddu ar lefel bersonol.* Felly, y gwahoddiad efengylaidd gan genhadon Crist (adnod 20) yw i gymodi. Ond nid yw’r apêl hwn yn apêl i wneud rhywbeth a fyddai’n achosi cymodi; yn hytrach mae’n apêl i *dderbyn* y cymod sydd eisoes yn bodoli gyda Duw yng Nghrist.

Cliciwch yma i ddarllen rhan 2: Cwestiynau Ynghylch Diwinyddiaeth Drindodaidd a’r Atebion Iddynt

Hawlfraint © 2009 Grace Communion International